

# ARCHIF MENYWOD CYMRU WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

CYLCHLYTHYR

MEDI 2004



Jenny Sabine (yn y canol) a Susan Edwards ( ar y dde) yn siarad ag ymwelwyr yn y Sioe Ben-ffordd

## **SIOE BEN-FFORDD HANES MENYWOD**

Er mwyn lledaenu'r neges am AMC/WAW ac fel ymarfer ymchwiliol cyn cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, trefnodd pedair aelod o Abertawe Sioe Ben-ffordd, ar 19 Mehefin yn yr Institiwt, Gorseion. Ymunodd Susan Edwards, aelod arall o'r pwyllgor ac Archifydd Sir Forgannwg a Mike Hodgson gwarchodwr archifyddol â ni.

Cafodd ei threfnu'n debyg i'r Antiques Roadshow ar y teledu. Roedd ein cyhoeddusurwydd yn gwahodd pobl i ddod â'u llythyron, dyddiaduron, dogfennau, llyfrau cofnodion, bathodynau, baneri, cylchlythyron, ffotograffau a.y.y.b. atom. Penodwyd rhannau o'r neuadd ar gyfer croesawu pobl, i drafod yr eitemau, i wneud lluniau a chofnod o'r eitemau, i siarad am yr Archif ac i egluro sut rydym yn gweithredu. Yn ogystal rhoddodd Mike arddangosfa a chyngor ar sut i ofalu am ffotograffau a phapurau. At hyn roedd gennym arddangosfeydd, te, coffi a chacen ac roedd cerddoriaeth gefndir addas. Parhaodd y Sioe o 10.30 hyd 12.30 ac er bod y niferoedd yn gymharol fach, roedd y rhai a ddaeth yn frwdfrydrig a llawn diddordeb ac roeddem yn brysur drwy'r bore. Rhwng popeth roedd yn ddigwyddiad difyr.

Y bwriad oedd ennill profiad ac adnabod dulliau o weithredu a phroblemau i'w goresgyn wrth redeg cyfres o Sioeau Pen-ffordd a fydd yn codi ymwybyddiaeth o waith yr Archif a phwysigrwydd defnyddiau yn ymwneud â hanes menywod. Fe ddysgon ni lawer yn ystod y bore, ynglyn â sut i gynllunio a sicrhau cyhoeddusurwydd i ddigwyddiad

o'r fath, pa fath o eitemau y gallwn ni roi cyngor amdanynt, a sut i reoli'r digwyddiad i sicrhau fod pob ymwelydd yn cael profiad da.

## **LLYFRGELLOEDD MENYWOD**

Yn dilyn ymweliadau â phump llyfrgell menywod yn Lloegr a'r Alban, mae'n bosibl adnabod dau fodel cyfoes o lyfrgelloedd menywod yn y DU: sefydliadau 'academaidd' ar gyfer ymchwilwyr yn bennaf a model 'anghenion cyfoes' yn ffocysu'n fwy ar agweddau cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Women's Library yn adnodd archifyddol rhagorol tra bod y Women's Library yn Glasgow yn denu menywod cymdeithasol amddifad trwy gynnig cyrsiau Gydol Oes iddynt.

Eu casgliadau amrywiol ac yn enwedig yr effemera ynddynt sy'n rhoi gwerth i lyfrgelloedd menywod i ymchwilwyr. Ac hefyd yr hyn a gyflawnant ar gyllid cyfyng. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae cyfyngiadau ariannol yn eu rhwystro rhag gweithredu ar eu mwyaf effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, does gan y mwyafrif ddim catalog ar gyfrifiadur o'u stoc nag oriau agor hir. Does ganddynt ychwaith ddim ystadegau cywir am nifer eu defnyddwyr ac maent yn cyfaddef fod llai o bobl yn eu defnyddio. Mae tensiynau amrywiol eraill hefyd o fewn a rhwng y llyfrgelloedd e.e. pan yn dymuno cwrdd â'u hamcanion ond yn cael eu rhwydro rhag gwneud hynny gan realiti'r sefyllfa. Mae'r mwyafrif hefyd yn ddibynol iawn ar wirfoddolwyr i redeg eu gwasanaethau a does ganddynt ddim ffynonellau sicr o gyllid. At hyn,

mae ganddynt broffil isel iawn, er eu bod yn cynnig ystod o wasanaethau ac adnoddau gwerthfawr.

Mae fy ymchwil wedi troi yn awr at edrych ar y sefyllfa gyfredol yng Nghymru. Fel aelodau o AMC/WAW rwy'n siwr fod gennych chi farnau am sut y dylid casglu a rhoi mynediad i ddogfennau a defnyddiau menywod. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sy gennych ar lyfrgelloedd menywod, yn enwedig o safbwynt Cymru: beth sy'n bosibl ac yn ymarferol? Os hoffai unrhywun weld erthygl fanylach am fy ymchwil, cysylltwch â mi ac fe anfonaf gopi.

*Alyson Tyler 01970-622161 (swyddfa)*

Y Llyfrgelloedd yr ymwelwyd â hwy:  
The Feminist Archive South (Bryste)  
<http://www.femarch.freeseerve.co.uk/>  
The Feminist Library (Llundain)  
<http://www.feministlibrary.org.uk/index.htm>  
Glasgow Women's Library  
[www.womens-library.org.uk](http://www.womens-library.org.uk)  
The Women's Library (Llundain) (y Fawcett Library gynt)  
<http://www.thewomenslibrary.ac.uk/>  
The Women's Resource Centre (Llundain)  
[www.wrc.org.uk](http://www.wrc.org.uk)

**RE-PRESENTING THE BRITISH PAST: WOMEN, GENDER AND HISTORY IN THE BRITISH ISLES. Cynhadledd 2-4 Ebrill, Prifysgol Morgannwg, Trefforest**

Dechreuodd y gynhadledd trwy ystyried y cyffredinol cyn symud at y neilltuol: Rhoddodd Deirdre Beddoe arolwg o waith diweddar a chyfredol i achub ffynonellau hanes menywod yng Nghymru yn ogystal â gwybodaeth am gyrsgiau a chyhoeddiadau diweddar yn y maes, ac fe'i dilynwyd gan adroddiad Maria Luddy am lwyddiannau ac anawsterau y Prosiect Hanes Menywod Gwyddelig (cafodd hi a'i thîm o ymchwilwyr rychwant o ymatebion - o werthfawrogiad cynnes i ochelgarwch yn ymylu ar elyniaeth). Dangosodd y ddwy ddarlith yn fyw nid yn unig faint sy wedi'i wneud ond faint sy ar ôl i'w wneud.

Roedd y darlithoedd llawn a'r gweithdai ar yr ail a'r trydydd dydd yn amrywio yn ddaeryddol (o Ynysoedd Shetland i Sir Ddinbych) ac yn gronolegol (o'r ail ganrif ar bymtheg hyd at yr Ail Ryfel Byd). Os ydy hi'n bosibl adnabod un thema gyffredin yn y rhai hynny y mynychais i, yna - fod y menywod yr ystyriwyd eu bywydau (fel unigolion neu fel grwpiau) yn rhannu sefyllfa Margaret Wynne Nevison, yr ynad, y gohebydd a'r swffragét o ddechrau'r ugeinfed ganrif: yr oedd ganddi, meddai Angela John, 'synnwyr o gael ei diffinio gan ddiwyllaint dominyddol nad oedd hi'n perthyn yn llawn iddo'. Ac roedd hyn yr un mor wir am sefyllfa athrawon benywaidd y 19edd ganrif yn yr Alban a Chymru (a drafodwyd gan Jane MacDermid, Siân Rhiannon Williams a Deborah

James) ag yr oedd am Lucy Middleton mewn gwleidyddiaeth Lafur yn y 1930au (June Hamman), am fenywod - yn enwedig menywod India'r Gorllewin - mewn delweddau ffilm a theledu o'r Ail Ryfel Byd ac yn angladd Churchill (Wendy Webster) a morynion fel diffinyddion a thystion yn llysoedd cyfraith gogledd-ddwyrain Cymru yn yr ail ganrif ar bymtheg (Sharon Howard).

Yn ei sylwadau yn y sesiwn adolygu derfynol pwysleisiodd Deirdre Beddoe bwysigrwydd cynnal deialog rhwng y rhai sy'n gweithio ar hanesion yr Alban, Iwerddon a Chymru, tra'n cydnabod fod yn rhaid perthnasu patrymau eu bywydau yn aml i rai menywod yn Lloegr ar gyfer gwneud cymariaethau; gwnaeth Ursula Masson y sylw pwysig - hyd yn oed os ydy menywod mewn hanes yn cael eu diffinio yn rhannol gan eu perthynas â'r norm gwrywaidd a bod elfennau yn gyffredin rhyngddynt, ni ddylid eu trin fel un grwp homogenaidd (gallai'r diddordeb mewn bywgraffiadau y teimlai hi oedd wedi amlygu'i hun yn y gynhadledd helpu yn hyn o beth i danlinellu gwahaniaethau unigol).

Gadewais y gynhadledd yn llawer mwy gwybodus am y gwaith cyfredol a diweddar ar hanes menywod ac yn ymwybodol iawn nid yn unig o gymaint y gall y rheiny sy'n gweithio yng ngwledydd gwahanol Prydain ennill trwy gadw mewn cysylltiad â'i gilydd, ond hefyd am yr angen am lawer mwy o adnoddau i ddarganfod ac achub defnyddiau sy'n parhau heb eu catalogio, yn cael eu storio mewn dulliau annigonol neu sy mewn perygl o gael eu taflu allan gyda'r sbwriel. Gofynnodd hanesydd o Gymru, tra'n sgwrsio am rychwant trawiadol y Prosiect Hanes Menywod Gwyddelig a'r problemau a'r cyfyngiadau y bu'n rhaid iddo'u hwynebu, beth oedd y ffactor unigol bwysicaf; 'Y cyfan sy ei angen arnoch' meddai Maria Luddy, 'yw arian'.  
*Gwyneth Tyson Roberts*

**MENYWOD ABERTAWY YN YSTOD YR AIL RYFEL BYD**

Rwy'n ymchwil defnyddiau llyfr am fenywod Abertawe a'u teuluoedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd: ffotograffau, a.y.y.b. a byddwn yn gwerthfawrogi cysylltu ag unrhywun a fyddai'n fodlon siarad â mi am eu hatgofion, gyda'r nod o'u cynnwys yn y llyfr. Os gallwch chi helpu, cysylltwch â Sally Bowler, 16 Hanbury, Orton Goldhay, Peterborough PE2 5QT, Ffôn 01733-370892, e-bost [salbowl@aol.com](mailto:salbowl@aol.com)

**Y DYDDIAD CAU: ar gyfer cyfrannu at y cylchlythyr nesa yw 15 Ionawr 2005. Anfonwch at Jenny Sabine:**  
[jandj@sabine83.fsnet.co.uk](mailto:jandj@sabine83.fsnet.co.uk)

**Golygwyd y cylchlythyr gan Jenny Sabine a chyfieithwyd gan Catrin Stevens**

